+ Our Future Health

# Ffurflen cydsyniad

**Prif Ymchwilydd:**
Dr Raghib Ali
o Our Future Health

Os ydych chi'n awyddus i gymryd rhan yn rhaglen ymchwil Our Future Health, darllenwch drwy'r Daflen Wybodaeth i Gyfranogwyr sydd â'r dyddiad 11/06/2024 (fersiwn 3.5) a darllenwch y datganiadau canlynol. I gymryd rhan, mae angen i chi gytuno â'r holl ddatganiadau isod. Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am y rhaglen neu am gymryd rhan, cysylltwch â'n tîm cymorth drwy anfon e-bost at support@ourfuturehealth.org.uk neu drwy ffonio 0808 501 5634.

Drwy gytuno i gymryd rhan yn Rhaglen Our Future Health, rydw i'n deall:

***ER GWYBODAETH YN UNIG***

1. Bydd Our Future Health yn cael mynediad at gofnodion sy'n ymwneud â fy iechyd, yn eu storio ac yn eu cysylltu. Mae'r rhain yn cynnwys cofnodion a gedwir gan sefydliadau ar draws pedair gwlad y DU, gan gynnwys y GIG a'r rheini sy'n darparu gwasanaethau ymchwil iechyd i'r GIG. Rydw i'n deall y gall y cofnodion gynnwys manylion am fy statws iechyd presennol a blaenorol, gan gynnwys unrhyw ddiagnosis neu driniaeth rydw i wedi eu cael.

   Rydw i'n deall y bydd angen i Our Future Health storio a rhannu rhywfaint o wybodaeth sy'n datgelu pwy ydw i â'r sefydliadau hyn, fel fy rhif GIG, fy enw a'm dyddiad geni, er mwyn galluogi Our Future Health i gysylltu'r wybodaeth hon â'm cofnodion iechyd, ac â'r wybodaeth arall sydd ganddynt amdanaf i.

2. Cyn belled â fy mod yn aros yn y rhaglen, bydd Our Future Health yn parhau i ddefnyddio fy nata, yn ogystal â chasglu a defnyddio fy manylion iechyd cysylltiedig at ddibenion ymchwil a dadansoddi drwy gydol fy oes a'r tu hwnt.

3. Bydd samplau gwaed rydw i'n eu rhoi i Our Future Health yn cael eu storio a'u defnyddio ar gyfer ymchwil sy'n ymwneud ag iechyd. Rydw i'n deall y gallai fy samplau a'm data dad-ddynodedig gael eu hanfon at broseswyr cymeradwy y tu allan i'r DU i gael eu dadansoddi.

4. Bydd DNA (manylion genetig) yn cael ei dynnu o fy ngwaed. Rydw i'n deall y bydd fy DNA yn cael ei ddadansoddi ar gyfer ymchwil iechyd gan ddefnyddio technoleg o'r enw arae SNP, ac y gall technolegau eraill gael eu defnyddio, fel dilyniannu genomau.

5. Ni fyddaf yn cael adborth personol o'r ymchwil yn awtomatig, ond cysylltir â mi yn y dyfodol i ofyn a ydw i'n dymuno cael adborth personol sydd wedi deillio o fy samplau neu fy nata.

6. Gallai ymchwilwyr sydd wedi eu cymeradwyo i storio a chael mynediad at yr wybodaeth sy'n cael ei chasglu gan Our Future Health fod o sefydliadau academaidd, elusennau neu gwmnïau, yn y DU neu dramor.

7. Gall Our Future Health gysylltu â mi eto yn y dyfodol, at ddibenion sy'n cynnwys y canlynol:
   - Anfon newyddion a'r wybodaeth ddiweddaraf am y rhaglen ymchwil ataf.
   - Gofyn i mi am fy mhrofiad o gymryd rhan.
   - Gofyn i mi lenwi holiaduron ychwanegol.
   - Gofyn am ganiatâd i gasglu gwybodaeth berthnasol amdanaf i o ffynonellau eraill.
   - Fy ngwahodd i roi (rhagor o) samplau biolegol, gan gynnwys gwaed.
   - Fy ngwahodd i ddod i apwyntiad i gael asesiadau eraill, fel delweddu.
   - Gofyn a fyddwn yn hoffi cael gwybodaeth bersonol sy'n deillio o fy samplau neu fy nata.
   - Fy ngwahodd i gymryd rhan mewn astudiaethau ymchwil eraill. Gall hyn fod yn seiliedig ar wybodaeth sy'n ymwneud â'm hiechyd, fel fy ngenynnau, fy ffordd o fyw, neu fy nghyflyrau meddygol.

8. Gallaf dynnu'n ôl o Our Future Health ar unrhyw adeg heb roi rheswm. Rydw i'n deall, os byddaf yn gadael Our Future Health, efallai y bydd rhywfaint o ymchwil eisoes wedi cael ei wneud gan ddefnyddio fy samplau a'm data ac na ellir dadwneud hyn.

**Gwybodaeth ychwanegol i gyfranogwyr sy'n ymuno ag Our Future Health drwy wasanaeth Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG mewn apwyntiad rhoi gwaed.**

Drwy ymuno ag Our Future Health drwy fy apwyntiad rhoi gwaed gyda gwasanaeth Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG, rydw i'n deall y canlynol:

- Bydd Our Future Health yn rhannu fy manylion genetig o fy sampl gwaed â gwasanaeth Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG. Bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth amdanaf, fel celloedd gwaed coch, mathau o blatennau, is-fathau o antigenau lewcoseit dynol (HLA) a grwpiau o gelloedd gwaed gwyn.
- Bydd y data hwn yn cael ei ddefnyddio i wella'r broses baru i bobl sy'n cael trallwysiadau gwaed a thrawsblaniadau bôn-gelloedd ac organau, ac i helpu i greu cynnyrch y gellir ei ddefnyddio i helpu gyda chanfod, atal a thrin clefydau, gwaith labordy, addysg a hyfforddiant.
- Bydd Our Future Health yn rhannu fy manylion personol sy’n datgelu pwy ydw i â gwasanaeth Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG, er mwyn helpu i gysylltu manylion genetig o fy sampl gwaed â fy nghofnod rhoddwr.

Rydw i'n cytuno i gymryd rhan yn rhaglen ymchwil Our Future Health.

Enw’r cyfranogwr:

Llofnod electronig: Dyddiad: